# ‘Who taught you?’: Cerdd ac archwiliad currere

Susan Chapman


## Cyflwyniad

Mae’r gerdd ‘Who taught you?’ yn gynnyrch dull currere o ddamcaniaethu am gwricwlwm a ysgrifennwyd yn ystod encil Currere Cymru. Mae’r sylwadau cysylltiedig yn trafod dull currere a’i werth fel fframwaith ar gyfer myfyrio ar gwricwlwm. Mae pedair rhan dull currere yn cynnig strwythur pen agored ar gyfer myfyrio ar brofiad unigol, ac mae’r sylwadau yn amlinellu’r broses gan ddefnyddio’r gerdd fel enghraifft. Wrth ddatblygu’r gerdd, mae’r myfyrdod hefyd yn ystyried agweddau eraill ar gwricwlwm ac addysgeg gan gynnwys cronfeydd gwybodaeth a darllen er mwyn pleser.


## Who taught you?

*Encil Currere Cymru, Gregynog, Ionawr 2025*

**Mewn ateb i gwestiwn William Pinar, ‘Beth yw natur fy mhrofiad addysgol ar hyn o bryd, a beth oedd ei natur yn y gorffennol?’**

My neighbour taught me to knit when I was five.
In – over – through – off.
Each loop linking to the next
with scarves and shawls and mohair jumpers for everyone and anyone.

My grandad taught me that walking was fun.
Paths and tracks and lanes connecting,
The destination ‘just round this corner’.

*https://doi.org/10.16922/ffocws14*

At junior school, they taught me to swim.
Wearing pyjamas and rescuing bricks
We towed each other to the side
And collected badges like Smartie tops.
And that last summer term, we all taught each other –
So no-one left that school a non-swimmer.

Grammar school
There were teachers
There were lessons
I passed exams
I left.

And all the time, the books…
Living on top of a mountain with grandfather,
Swimming like a fish and flying like a falcon,
Catching a band of smugglers or jewel thieves,
Growing up in a Cotswold village,
Making a good suit of armour,
Travelling (accidentally) around the galaxy,
Encountering DEATH,
Living through the seasons and the ages…

Each loop of language linking the next.
Each path a gateway to another world.
The destination just round this corner.

I still knit.
I still walk.
I still read.
And I know what to do if you need rescuing.

## Sylwadau

Mae'r gerdd 'Who taught you?' yn gynnyrch dull currere o ddamcaniaethu am gwricwlwm (Pinar, 1994). Mae'r dull yn seiliedig ar brofiad yr unigolyn o gwricwlwm ac mae'n cynnig strwythur pedair rhan ar gyfer myfyrio (Pinar, 1995). Fe wnes i

ddechrau cyfranogi yn null currere mewn encilion ar gyfer athrawon ac academyddion yng Nghymru fel rhan o brosiect Currere Cymru (Smith, 2024). Mynychais encil ym mis Gorffennaf 2023 lle bûm yn cydweithio ag athrawon ac addysgwyr athrawon ar ddadansoddi eu hatchweliadau myfyriol ar thema iaith (Chapman, Latham, McConnell, Peate a Tudor, 2024). Dechreuodd y gwaith o gyfansoddi'r gerdd 'Who taught you?' yn encil Currere Cymru yng Ngregynog ym mis Ionawr 2025 lle dechreuais ysgrifennu ymateb unigol i gwestiwn Pinar, 'Beth yw natur fy mhrofiad addysgol ar hyn o bryd, a beth oedd ei natur yn y gorffennol?', gan ddefnyddio strwythur pedair rhan currere: atchweliad, cynnydd, dadansoddiad a synthesis (Pinar, 1994; Smith, 2024). Roedd yr encilion yn darparu amser a lle i ganolbwyntio ar y broses currere, gan ddefnyddio ysgrifennu fel dull myfyriol. Pwrpas y sylwadau hyn yw gosod y gerdd 'Who taught you?' yng nghyd-destun currere, cyd-destun ehangach ymarfer myfyriol, y llenyddiaeth ar gronfeydd gwybodaeth a darllen o ddewis, a fy mlaenoriaethau fel addysgwr.

Mae cam cyntaf currere, atchweliad, yn debyg i ymarfer myfyriol, sy'n nodwedd sylfaenol o'r proffesiwn addysgu ac wedi'i ymwreiddio yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a defnydd o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (Llywodraeth Cymru, 2017). Fodd bynnag, mae'n gallu bod yn anodd dod o hyd i'r amser a'r lle i fyfyrio. Mae Kelly (2023) yn dadlau o blaid cadw dyddiaduron fel dull myfyriol ond mae'n cydnabod er nad oes amheuaeth bod cadw dyddiadur yn fanteisiol i lesiant addysgwyr, mae amser addysgwyr yn brin (t. 11). Mae dyddiaduron a modelau myfyrio eraill yn tueddu i ganolbwyntio ar ymarfer cyfredol neu ddiweddar. Fodd bynnag, mae dull currere yn canolbwyntio ar 'y gorffennol bywgraffyddol' (Pinar, 1994, t. 22), sy'n dylanwadu ar y presennol yn ei farn ef. Wrth fyfyrio ar brofiadau'r gorffennol rydym yn dod i ddeall y presennol yn well.

Deilliodd 'Who taught you?' o sesiwn ysgrifennu rhyddiaith rydd mewn ymateb i gwestiwn Pinar, yn ystod cam atchweliad currere. Roedd y darn yn darparu gwybodaeth am fy ymarfer yn ymwneud â phwysigrwydd cysylltiadau nad oeddwn erioed wedi'u mynegi'n llawn o'r blaen. Dechreuodd fel myfyrdod ar lyfr penodol, *Le Morte d'Arthur* gan Syr Thomas Malory (Spisak gol., 1983) a fu'n hollbwysig yn ystod fy mhlentyndod a'm haddysg. Hwyrach fod hwn yn fan cychwyn annisgwyl, felly mae'n bwysig nodi dylanwad y cyd-destun. Mae'r llyfrgell yng Ngregynog yn cynnwys argraffiad hardd 1983 o lyfr Malory wedi'i olygu gan James W. Spisak, ac yn ystod yr encil currere, treuliais lawer o amser â'm pen yn y llyfr hwn a oedd wedi bod mor bwysig i mi fel myfyriwr. Efallai ei bod yn ymddangos nad oeddwn i'n canolbwyntio

ar fyfyrdod proffesiynol, ond mae Malory yn gweithio mewn ffyrdd dirgel. Nid oedd gen i unrhyw fwriad i ysgrifennu cerdd. Fodd bynnag, fe wnaeth y broses o ysgrifennu a mireinio myfyrdod mewn rhyddiaith arwain at gyfansoddi cerdd. Wrth ailddarllen y testun yn ystod y cam cynnydd, dechreuais fyfyrio ar fydoedd darllen fy mhlentyndod, a'r cysylltiadau a wneuthum rhwng y bydoedd hynny. Ond roedd yn rhaid i mi gyfaddef bod mwy i fy mhlentyndod na dim ond darllen straeon, felly dechreuais archwilio mathau eraill o ddysgu a'r bobl a fu'n ddylanwadol yn hynny o beth.

Buan iawn y daeth yn amlwg i mi nad oedd llawer o'r dysgu a oedd yn bwysig i mi ar y pryd ac sy'n berthnasol hyd heddiw wedi digwydd yn yr ysgol. Roedd dysgu sut i wau yn hollbwysig i mi ac fe ddigwyddodd hynny y tu allan i'r ysgol. Ar y pryd, roedd gwau yn rhan o gwricwlwm fy ysgol gynradd, ond roedd fel pe bai rhagdybiaeth bod disgyblion yn gallu gwau yn barod. O ganlyniad, roedd y gwersi yn cael eu defnyddio i weithio ar brosiectau yn hytrach na dysgu'r disgyblion sut i wau. Mae'n anodd dychmygu un athro/athrawes yn gallu addysgu 40 a mwy o blant i wau. Felly, gellir ystyried gwau o safbwynt cronfeydd gwybodaeth i ryw raddau (Moll, 2019). I mi, ni chafodd sgiliau gwau a chrefftau eraill, fel trwsio a gwneud dillad, eu datblygu yn yr ysgol. Yn hytrach, fe'u datblygwyd gan aelodau'r teulu a mentoriaid caredig neu drwy ddarllen patrymau a llyfrau. Mae'r cysyniad perthynol o gronfeydd hunaniaeth (Esteban-Guitart a Moll, 2014) wedi datblygu o gronfeydd gwybodaeth, ac roedd y teithiau cerdded gyda fy Nhaid yn ein milltir sgwâr a thu hwnt yn allweddol o ran datblygu cronfeydd hunaniaeth wrth i mi ddysgu am le a theulu. Y llwybrau cyfarwydd a droediwn rhwng tai cefndryd a modrybedd, yr alïau muriog a'r llwybrau lludw gan osgoi'r brif ffordd, a arweiniai at y lawntiau bowlio a'r parciau, oedd fy map meddyliol o gartref. Roedd yr ysgol ar y map ond ni chyfrannodd lawer at ei greu.

Yr addysgu mwyaf effeithiol rwy'n ei gofio yn yr ysgol gynradd oedd nofio ac achub bywydau. Ar y pryd, does neb yn meddwl bod eu hysgol yn rhyfedd, ond wrth edrych yn ôl, tybed pa mor gyffredin oedd hi i addysgu grŵp blwyddyn cyfan o tua 100 o blant saith ac wyth oed i wneud rhywbeth a elwid ar y pryd yn 'resbiradaeth artiffisial' (CPR)? Fe wnaethom elwa ar ymrwymiad diwyro ein pennaeth a'i staff i sicrhau bod plant yn dysgu sut i nofio, sut i oresgyn trafferthion yn y dŵr ac, os oedd angen, sut i helpu eraill a oedd mewn trafferth. Heb os, roedd y ddarpariaeth hon yn mynd y tu hwnt i gwricwlwm safonol y cyfnod. Roedd yr AALl yn darparu awr o nofio'r wythnos i blant 10-11 oed. Roedden ni'n nofio o leiaf

unwaith yr wythnos o 8–9 oed ymlaen gan ein bod yn gallu defnyddio pwll nofio'r ysgol ramadeg leol i fechgyn. Fe wnaethom dreulio llawer o amser yno yn nofio mewn pyjamas ac yn plymio am frics rwber. Fodd bynnag, yn fwy na'r gwersi gan athrawon a hyfforddwyr, rwy'n cofio bod y nofwyr cryfaf yn arfer cael eu paru â'r nofwyr llai hyderus – roedd disgyblion yn cefnogi disgyblion eraill gyda'u dysgu. Roedd y pwyslais ar nofio, ac yn enwedig ar achub bywydau a goroesiad personol, yn cynrychioli'r hyn a oedd yn bwysig yng nghwricwlwm yr ysgol: datblygu sgil allweddol; yr argyhoeddiad bod pawb yn gallu llwyddo; a rôl disgyblion yn cefnogi ei gilydd.

Trwy gydol fy addysg gynradd a thu hwnt, roeddwn i'n mwynhau darllen. Weithiau byddwn i'n darllen yr hyn roedd fy athrawon yn ei argymell, ond roeddwn i bob amser yn darllen yn llawer mwy eang nag arlwy'r cwricwlwm. Mae gwaith ymchwil helaeth wedi cael ei wneud ynglŷn â phwysigrwydd darllen er pleser yn ystod plentyndod a llencyndod (Loh, Gol., 2024; Cremin, Mottram, Collins, Powell a Safford, 2014) ac ar ei effaith ar gyrhaeddiad academaidd. Mae'r gerdd yn cynrychioli rhan fach iawn o'r hyn a ddarllenais, ond roedd ei ffrwyth wedi fy ngalluogi i wneud cysylltiadau rhwng lleoedd, pobl a syniadau (Santi, Cebula a McGeown, 2024). Roedd ysgrifennu'r gerdd yn fodd i mi weld rhai o'r cysylltiadau hynny.

Yr ysgol ramadeg yw'r datgysylltiad yn y gerdd. Roedd yn ymddangos na wnaeth fy addysg uwchradd greu llawer o argraff arnaf. Nid oedd yn ofnadwy ond nid oedd yn gofiadwy chwaith. Ac yn hollbwysig, nid oedd fel be pai'n cysylltu ag unrhyw beth arall.

Ym model Pinar, cam nesaf currere yw'r dadansoddol. Wrth weithio ar y gerdd, sylweddolais mai'r trosiad canolog yw cysylltiad a chysylltiadau. Mae gwau yn gyfres o ddolennau cysylltiedig y gellir eu datblygu mewn sawl ffordd i greu amrywiaeth ddiddiwedd o batrymau. Mae pob un o'r llwybrau a'r ffyrdd y bues i'n eu cerdded yn gynnar yn fy mywyd yn cysylltu â'r llwybrau, ffyrdd a lleoedd eraill ar fy map meddyliol. Fel plant yn dysgu nofio, fe wnaethom baru i gefnogi nofwyr llai hyderus - plant yn trosglwyddo eu sgiliau i blant eraill. Ac mae'r cysylltiadau rhwng y llyfrau yn ddiddiwedd. Nid addurn yn unig yw'r trosiad, fodd bynnag; mae'n sylfaenol i fynegiant meddwl. Mae dewisiadau iaith yn gwireddu trosiadau cysyniadol (Kövecses, 2021; Lakoff a Johnson, 1980); maent yn datgelu sut rydym ni'n meddwl, nid dim ond beth rydym ni'n ei feddwl. Mae'r trosiad yn 'Who taught you?' yn datgelu pwysigrwydd cysylltiad i mi yn ystod fy nysgu fy hun. Roedd y broses

currere, sef neilltuo amser i fyfyrio ac archwilio, wedi fy helpu i weld mai rhan sylfaenol o'm hymarfer fel athrawes oedd cynorthwyo myfyrwyr i wneud cysylltiadau.

Cam olaf y dull currere yw synthesis. Mae Pinar yn ei ddisgrifio fel dwyn ynghyd holl gamau'r dull er mwyn creu ystyr yn y presennol. Fodd bynnag, mae dwy lefel o synthesis yn yr enghraifft hon o'r dull. Roedd cwblhau'r gerdd (i'r graddau y mae unrhyw gerdd yn gyflawn) wedi sicrhau'r synthesis i mi fel yr awdur, er gwaethaf y ffaith nad oedd gen i unrhyw fwriad i ysgrifennu cerdd, heb sôn am ei rhannu. Roedd y gerdd yn gwneud synnwyr o batrwm o brofiad nad oeddwn i erioed wedi'i weld mor llawn o'r blaen, proses sy'n ganolog i currere (Smith, 2024). Fodd bynnag, mae cam arall wrth ysgrifennu'r sylwadau hyn, sef cyflwyno'r gerdd a'r broses o'i chreu i gynulleidfa ehangach er mwyn arddangos dull currere. Fel rheol gyffredinol, byddwn yn dadlau y dylai cerdd sefyll ar ei thraed ei hun, ond yn yr achos hwn cyflwynir y gerdd fel enghraifft o sut mae currere yn gallu hwyluso gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach unigolyn o'i faes astudio (Pinar, t. 27).

## Cyfeiriadau


Chapman, S., Latham, A., McConnell, H., Peate, J., a Tudor, S. (2024). Not Talking, Talking, and Telling a Tale: Four Reflections on Finding a Voice. *The Currere Exchange Journal*, 8(2), 86–97.

Cremin, T., Mottram, M., Collins, F. M., Powell, S., a Safford, K. (2014). *Building communities of engaged readers: Reading for pleasure*. Routledge.

Esteban-Guitart, M., a Moll, L. C. (2014). Funds of identity: A new concept based on the funds of knowledge approach. *Culture & psychology*, 20(1), 31–48.

Kelly, L. (2023). *Reimagining the Diary: Reflective practice as a positive tool for educator wellbeing*. John Catt.

Lakoff, G. a Johnson, M. (1980). *Metaphors We Live By.* Chicago: University of Chicago Press.

Loh, C. E. (Gol.). (2024). *The Reading Lives of Teens: Research and Practice*. Taylor & Francis.

Llywodraeth Cymru (2017). *Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Malory, Syr Thomas. *Caxton's Malory*. Gol. Spisak, James. W. (1983). 2 gyfrol mewn bocs. Berkeley and Los Angeles: University of California Press.

Moll, L. C. (2019). Elaborating funds of knowledge: Community-oriented practices in international contexts. *Literacy Research: Theory, Method, and Practice*, 68(1), 130–8.

Pinar, W. F. (1994). The method of 'Currere' (1975). *Counterpoints*, 2, 19–27.

Pinar, W. F. (1995). *Understanding curriculum: An introduction to the study of historical and contemporary curriculum discourses* (Cyf. 17). Peter Lang.

Santi, E., Cebula, K., a McGeown, S. (2024). Understanding Teenagers' Experiences of Reading Fiction. Yn *The Reading Lives of Teens* (tt. 87–105). Routledge.

Smith, K. (2024). Ailgysyniadoli Cwricwlwm mewn cyfnod newydd o Addysg yng Nghymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 26(2), 57–74

Kövecses, Z. (2021). Standard and extended conceptual metaphor theory. Yn *The Routledge handbook of cognitive linguistics* (tt. 191–203). Routledge.